Cartrefi Conwy



# Hunan-werthusiad Rheoleiddio 2024

Hunan-werthusiad o ansawdd llywodraethu, darparu gwasanaeth a hyfywedd ariannol y sefydliad wrth gyflawni ei ddiben



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Sut mae'r Bwrdd yn gwybod fod y sefydliad yn cydymffurfio gyda phob safon reoleiddio | 3 |
| Data perfformiad allweddol a ffynonellau o sicrwydd | 4 |
| Prif dystiolaeth | 6 |
| Anghenion a safbwyntiau'r tenantiaid | 7 |
| Risgiau strategol allweddol a rheolyddion cysylltiedig | 8 |
| Asesiad o gydymffurfedd gyda'r Cod Llywodraethu | 9 |
| Safon Reoleiddio 1 | 10 |
| Safon Reoleiddio 2 | 12 |
| Safon Reoleiddio 3 | 14 |
| Safon Reoleiddio 4 | 16 |
| Safon Reoleiddio 5 | 18 |
| Safon Reoleiddio 6 | 19 |
| Safon Reoleiddio 7 | 20 |
| Safon Reoleiddio 8 | 22 |
| Safon Reoleiddio 9 | 23 |

# Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn ar 2 Rhagfyr 2024 ac mae'n crynhoi ein hunan-werthusiad yn erbyn y Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai Wedi'u Cofrestru yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn Ionawr 2022.

Mae ein hunan-werthusiad wedi'i seilio ar y canlynol:

- Cyfrif o sut mae'r Bwrdd yn gwybod fod y sefydliad yn cydymffurfio gyda phob safon reoleiddio gan gynnwys cyfeiriad at y data perfformiad allweddol a ffynonellau o sicrwydd.
- Asesiad o'n cydymffurfedd gyda Chod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru, adolygiad o'n gweithgareddau yn erbyn y safonau rheoleiddio.
- Proses gadarn o werthuso
- Ystyriaeth o anghenion a safbwyntiau tenantiaid mewn perthynas â'r gwasanaethau rydym yn eu darparu ac ansawdd y gwasanaethau mae tenantiaid yn eu derbyn.
- Nodi risgiau strategol allweddol a gweithredu rheolaethau cysylltiedig i'n helpu ni i reoli'r risgiau rydym yn dod i gysylltiad â nhw.
- Yn dilyn ein gwerthusiad rydym wedi nodi rhai meysydd ar gyfer gwelliant parhaus. Mae'r rhain wedi eu crynhoi yn yr adroddiad hwn yn erbyn y safon berthnasol.

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag elfennau allweddol ein hunan-werthusiad, a chrynodeb o'r sicrwydd a ddarparwyd i dîm Rheoleiddio Tai Llywodraeth Cymru. Gallwch ddarllen ein dyfarniad rheoleiddio 2022 yma.

Gallwch hefyd weld ein Hadroddiad Gweithgareddau Blynyddol a Pherfformiad 2023-2024 yma.

# Sut mae'r Bwrdd yn gwybod fod y sefydliad yn cydymffurfio gyda phob safon reoleiddio

Mae hunan-werthusiad Cartrefi Conwy 2024 yn erbyn y Safonau Rheoleiddio (Ionawr 2022) wedi ei gydlynu gan y Tîm Llywodraethu, trwy gysylltu gyda'r holl adrannau, y weithrediaeth a'r uwch dîm rheoli ac aelodau'r Bwrdd.

Mae aelodau'r Bwrdd wedi ymgysylltu â datblygu'r gwerthusiad ac wedi dylanwadu ar hynny ac wedi cael cyfleoedd i ystyried y wybodaeth a ddarparwyd i gefnogi ein hunan-werthusiad. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad manwl o'n trefniadau llywodraethu yn erbyn Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru, sef y Cod Llywodraethu sydd wedi ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Cyn cyflwyno hyn fe ystyriodd Bwrdd Cartrefi Conwy (yn ei gyfarfod ar 12/12/2024) ddrafft terfynol cynhwysfawr o hunan-werthusiad 2024 y Gymdeithas a oedd yn ymdrin â phob un o'r naw safon a'r is adrannau o fewn pob safon.

Fel rhan o'n gweithgareddau busnes arferol rydym eisoes yn gweithredu cynlluniau gwaith gweithredol i gefnogi gwelliant y gwasanaethau yn barhaus a chyflawni'r amcanion a osodwyd gennym yn ein cynllun busnes 2020 – 2025: (mae crynodeb ar gael ar ein gwefan: Cynllun Busnes).

Mae proses hunan-werthuso 2024 wedi ein helpu ni i nodi'r cwmpas ar gyfer gwelliant parhaus pellach mewn agweddau amrywiol o'n busnes. Mae'r rhain wedi eu crynhoi yn erbyn y safonau perthnasol yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Drwy weithredu'r ymrwymiadau hyn tuag at welliant, fe fyddwn yn cryfhau sicrwydd o ran ein cydymffurfedd gyda phob un o'r safonau rheoleiddio a'r effaith rydym yn ei greu drwy'r gefnogaeth a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'n tenantiaid ac o fewn ein cymunedau lleol.

Rydym yn credu fod ein hasesiad o sut rydym yn bodloni pob un o'r Safonau Rheoleiddio wedi ei ystyried yn ofalus ac mae'n gadarn.

# Data perfformiad allweddol a ffynonellau o sicrwydd

Wrth gasglu ein tystiolaeth o gydymffurfedd gyda'r Fframwaith Rheoleiddio diweddaraf, rydym wedi canolbwyntio ar ein perfformiad a gweithgareddau eraill yn ystod y cyfnod o Fedi 2022 i Ragfyr 2024.
Fe gynhaliwyd asesiad rheoleiddio diwethaf Cartrefi Conwy yn Hydref 2022 yn erbyn y safonau rheoleiddio newydd.

- Perfformiad ariannol (cyfrifon rheoli). Mae adrodd ar hyn hefyd yn cyd-fynd â'r amserlen ar gyfer cyflwyno i'r tîm Rheoleiddio fel rhan o amserlen flynyddol datganiadau rheoleiddio.
- Cyfrifon ariannol blynyddol a datganiadau adrodd. Mae'r rhain yn cael eu hystyried ym Mhwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Grŵp cyn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ar gyfer eu cymeradwyo. Mae hyn yn cynnwys cyfrifon ar gyfer yr is-gwmnïau.



# Data perfformiad allweddol a ffynonellau o sicrwydd

Perfformiad ariannol (cyfrifon rheoli). Mae adrodd ar hyn hefyd yn cyd-fynd â'r amserlen ar gyfer cyflwyno i'r tîm Rheoleiddio fel rhan o amserlen flynyddol datganiadau rheoleiddio.
Cyfrifon ariannol blynyddol a datganiadau adrodd. Mae'r rhain yn cael eu hystyried ym Mhwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Grŵp cyn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ar gyfer eu cymeradwyo. Mae hyn yn cynnwys cyfrifon ar gyfer yr is-gwmnïau.

Mae ffynonellau eraill o sicrwydd y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn eu defnyddio yn cynnwys:

- Archwiliadau mewnol a gaiff eu cynnal gan sefydliad annibynnol i raglen a osodir yn flynyddol ac a gaiff ei chymeradwyo'n flynyddol gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Grŵp.
- Archwiliad ariannol blynyddol (allanol) o'r cyfrifon yn unol â safonau adrodd ariannol statudol a chydnabyddedig eraill.
- Adolygiadau annibynnol ac arweiniad gan ymgynghorwyr allanol perthnasol (cyfreithiol, rheoli trysorlys, pensiwn, eiddo ac arbenigwyr eraill yn ymwneud â'r sector).
- Adolygiadau, arolygon ac archwiliadau a arweinir yn weithredol, gyda'r canlyniadau'n cael eu defnyddio i lywio argymhellion ar gyfer newid mewn polisïau, prosesau neu adnoddau.
- Diweddariadau cydymffurfedd cyfreithiol chwe misol a gaiff eu darparu gan ein hymgynghorwyr cyfreithiol, eu hadolygu gan yr uwch dîm rheoli a'u defnyddio i lywio newidiadau mewn trefniadau gweithredol neu bolisïau yn ôl yr angen.
- Adrodd yn erbyn y Safon Adrodd ar Gynaliadwyedd ar gyfer Tai Cymdeithasol. Mabwysiadodd Cartrefi Conwy hyn yn gynnar, sy'n darparu fel cyfrwng i gymdeithasau tai ddangos eu nodweddion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i ni adolygu ein gweithgareddau'n flynyddol yn erbyn casgliad cynhwysfawr o feini prawf Safonau Adrodd ar Gynaliadwyedd. Drwy fabwysiadu'r safon hon ac adrodd arni'n flynyddol roeddem yn gallu sicrhau cyllid cystadleuol iawn i gefnogi ein huchelgais ar gyfer hybu datblygiad a chyflenwad tai fforddiadwy. Fe gyhoeddwyd ein hadroddiad ACLl (Amgylcheddol, Cymdeithasol, Llywodraethu) yn 2024, a gellir ei weld ar ein gwefan yma.

Pan fo materion yn ymwneud â risg neu eithriadau mawr o ran perfformiad yn codi o fewn pwyllgor neu fwrdd is-gwmni, byddant yn cael eu huwchgyfeirio i Fwrdd Cartrefi Conwy fel bo'n berthnasol. Hefyd mae cael cofnodion holl gyfarfodydd y pwyllgor a bwrdd yr is-gwmni, a'r wybodaeth ddiweddaraf trosfwaol yn ymwneud â llywodraethu a rheoleiddio i bob cyfarfod bwrdd yn helpu i sicrhau fod y bwrdd yn cael golwg clir ar faterion a gaiff eu hystyried mewn perthynas â holl agweddau'r busnes.

# Y brif dystiolaeth y dibynnwyd arni wrth gynnal y gwerthusiad

Drwy gydol y cyfnod rhwng Rhagfyr 2023 a Rhagfyr 2024 mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau wedi cyfarfod i amserlen o gyfarfodydd y cytunwyd arnynt yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion sy'n berthnasol i'r arweinyddiaeth, llywodraethu, cyllid a gweithrediad y busnes. Mae aelodau'r Bwrdd wedi cael gwybodaeth yn y cyfarfodydd hyn ar sawl fformat i lywio eu trafodaeth a'r broses o lunio penderfyniadau. Mae adroddiadau a chyflwyniadau wedi cynnwys:

- Gwybodaeth ar berfformiad gweithredol
- Nodiadau'n rhoi cyngor ac adroddiadau archwiliadau gan gynghorwyr allanol ac ymgynghorwyr. Canlyniadau o arolygon boddhad tenantiaid.
- Astudiaethau achos ac adroddiadau o effaith cymdeithasol yn crynhoi canlyniadau a gyflawnwyd  Datganiadau sefyllfa ariannol
- Adroddiadau / cyflwyniadau yn cyd-fynd â risgiau strategol a gweithredol ar lefel sector a sefydliadol, yn rhoi amser i ystyried mesurau lliniaru cysylltiedig a llywio cynlluniau gweithdrefnol; cyflwyno Strategaeth Rheoli Asedau newydd, trosolwg o Leithder, Llwydni ac Anwedd a llywio ein hateb i WHQS2023.

Cefnogwyd aelodau'r bwrdd wrth iddynt ystyried materion o'r fath gan swyddogion gweithredol ac arweinwyr gwasanaeth ar draws y busnes fel bo'n berthnasol.

Mae aelodau'r bwrdd hefyd wedi cymryd rhan ac wedi dylanwadu ar yr agenda ar gyfer dyddiau strategol a gweithdai ychwanegol yn ymwneud â phynciau penodol, rhai wedi eu cefnogi gan ymgynghorwyr proffesiynol neu siaradwyr sy'n berthnasol i'r sector, sydd wedi galluogi trafodaeth fwy manwl ar gyfleoedd sy'n datblygu a meysydd o risg neu her, gyda thrafodaethau yn cael eu defnyddio i lywio datblygiad neu ddiweddaru strategaethau cysylltiedig. Cynhaliwyd ein Diwrnod Strategaeth diweddaraf yn un o'n Canolfannau Cymunedol yn Llandudno a chafwyd trafodaethau gan ein Hymgynghorwyr Cyfreithiol – Cyfreithwyr Anthony Collins.

Drwy fynychu digwyddiadau gweithredol a sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn cynnwys tenantiaid a chydweithwyr, mae ein haelodau Bwrdd wedi gallu clywed ac ystyried beth mae tenantiaid yn ei ddweud am yr hyn sy'n bwysig iddynt, a deall ein cymunedau'n well, y materion oddi mewn iddynt a sut rydym yn ymateb.

Mae'r gweithgareddau amrywiol hyn yn sicrhau fod ein haelodau Bwrdd yn cael gwybodaeth gan amrywiaeth o ffynonellau i'w helpu i graffu a chael sicrwydd ynglŷn â'n gweithgareddau a chydymffurfio gyda'r safonau rheoleiddio.

# Mae anghenion a safbwyntiau tenantiaid wedi eu deall a'u hystyried fel rhan o'r hunan-werthusiad.

Mae tenantiaid yn dweud wrthym beth yw eu hanghenion a beth yw eu safbwyntiau mewn amrywiaeth eang o ffyrdd;

- wrth wneud cais am gartref neu pan wneir cynnig am gartref
- wrth geisio cymorth ar faterion yn ymwneud â chynnal a chadw, atgyweirio a rheoli eu cartref neu eu cymdogaeth
- tra'n ymgysylltu gyda chydweithwyr sy'n darparu gwasanaethau iddynt wrth fynychu digwyddiadau cymdeithasol a grwpiau ffocws penodol
- wrth ymateb i arolygon
- mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn derbyn adroddiadau sy'n cyfeirio at pryd a sut y mae safbwyntiau tenantiaid wedi eu casglu ac y gweithredwyd arnynt, er enghraifft gall adroddiadau gynnwys;
    - gwybodaeth am ein perfformiad o ran ymdrin â chwynion a dyrannu cartrefi  gwybodaeth am yr ymgynghoriadau a wnaed yn ymwneud â newidiadau i wasanaethau, gosod rhent a thaliadau gwasanaeth, prosiectau adfywio cymunedol, datblygiadau tai.
    - cynnydd yn erbyn ein strategaeth effaith gymdeithasol (ar gael ar ein gwefan yma: Strategaeth Effaith Gymdeithasol) yn crynhoi'r canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer ein tenantiaid, preswylwyr eraill a'r gymuned yn ehangach lle rydym wedi darparu cefnogaeth bersonol neu'n ymwneud â thenantiaeth, cyllid cymunedol neu wedi annog cyfranogiad mewn dulliau eraill.
    - canlyniadau o arolygon boddhad tenantiaid, gan gynnwys yr arolwg STAR sy'n ofyniad adrodd rheoleiddiol blynyddol.
    - Rydym yn defnyddio sefydliad annibynnol i reoli rhaglen dreigl o arolygon boddhad, gan dargedu tua 200 o denantiaid gwahanol bob chwarter. Yn ystod y flwyddyn rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024 cafwyd safbwyntiau 800 o denantiaid (tua 20% o'n tenantiaid), a ddewiswyd ar draws ein cronfa ddata tenantiaid i sicrhau cynnwys mathau o dai, dros ardal ddaearyddol eang a chymysgedd o oedrannau tenantiaid. Roeddem felly'n hyderus fod yr ymatebion a dderbyniwyd yn gyfartal gynrychioliadol mewn perthynas â gwasanaethau a ddarparwyd ar draws ein sylfaen o denantiaid.

# Risgiau strategol allweddol a rheolyddion cysylltiedig

Dros y flwyddyn cynhaliwyd adolygiad llawn o'n prosesau Rheoli Risg sydd wedi arwain at gynhyrchu ac integreiddio cofrestr risg ar gyfer y cwmni cyfan. Mae'r cofrestrau hyn nawr yn ffurfio rhan o raglen chwarterol pob Bwrdd/Pwyllgor.

Mae risg wedi dod yn eitem sefydlog yn rhaglen pob Bwrdd/Pwyllgor a darperir adborth i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Grŵp i ddarparu sicrwydd fod y risgiau yn cael eu rheoli. Rydym wedi dosbarthu ein meysydd risg strategol ar draws ein Bwrdd a'n Pwyllgorau, yn seiliedig ar y Cylch Gorchwyl a'r cyfrifoldebau ar gyfer y grwpiau hyn.

Mae'r Bwrdd wedi cydnabod y bydd y tebygolrwydd neu ddifrifoldeb yr effaith yn ymwneud â'r Risgiau Strategol hyn yn amrywio yn ddibynnol ar gyfuniad o faterion (amser, graddfa, difrifoldeb) yn codi yn fewnol o'n gweithrediadau neu o ddylanwadau allanol eraill.

Caiff materion risg a nodwyd ym mhob cyfarfod (un ai fel maes penodol y canolbwyntir arno neu yn fwy cyffredinol yn codi mewn trafodaethau) eu crynhoi ar ddiwedd y cyfarfod yn erbyn y risgiau strategol hyn. Hefyd mae gennym ni Fap Sicrwydd Risg yn weithredol sy'n nodi ein strwythur reolaeth gyntaf, yr ail a'r trydydd.

Ar lefel weithredol mae'r busnes wedi nodi pa risgiau sydd fwyaf perthnasol i'n busnes, ac wedi graddio'r rhain yn seiliedig ar debygolrwydd, effaith a'r mesurau lliniaru sydd mewn grym / ar gael i leihau effaith. Mae ein cofrestr risg wedi ei hadolygu'n llawn o fewn y 12 mis diwethaf ac mae'n cyd-fynd â'r risgiau hynny a nodwyd yn Nhrosolwg Risgiau Sector Rheoleiddio Llywodraeth Cymru. Caiff ein cofrestr risg ei hadolygu bob chwarter a chaiff unrhyw amrywiad mewn risgiau a asesir ei adrodd i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Grŵp ac i'r Bwrdd/Pwyllgor perthnasol.



# Asesiad o gydymffurfedd gyda'r Cod Llywodraethu

Ymgymrwyd ag adolygiad o'n cydymffurfedd â Chod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru yn Rhagfyr 2024.

Rydym yn credu ein bod yn cydymffurfio gyda'r rhan fwyaf o agweddau'r Cod fodd bynnag rydym wedi nodi rhai agweddau yr ydym yn dymuno parhau i weithio tuag at eu gwella.

# Cynllun Gwella Parhaus

Mae ein Cynllun Gwella Parhaus wedi ei lywio gan ystyriaeth fanwl o'n lefel o gydymffurfedd yn erbyn pob un o'r naw Safon Reoleiddio a'n Cod Llywodraethu mabwysiedig (Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru).

Nid ydym wedi cynnwys gweithgarwch gwelliant gweinyddol neu weithredol lefel isel sydd eisoes yn cael ei ddatblygu fel rhan o 'fusnes arferol'.

Rydym wedi dyrannu cyfrifoldeb i ddeiliaid swyddi unigol perthnasol ac wedi neilltuo amserlen yr ydym yn teimlo bod modd ei chyflawni a sy'n cydbwyso ein blaenoriaethau gweithredol eraill a chapasiti.

Mae'r blaenoriaethau gwelliant yn ein Cynllun Gwelliant Parhaus wedi eu crynhoi yn yr adran ganlynol.



# Safon Reoleiddio 1

Mae gan y sefydliad arweinyddiaeth strategol effeithiol a threfniadau llywodraethu sy’n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a’i amcanion. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni wneud yr isod:

Cael strategaeth sy’n adlewyrchu ein gweledigaeth, diwylliant a gwerthoedd a sy’n nodi sut y byddwn yn cyflawni’r diben craidd fel landlord cymdeithasol.

Cydymffurfio gyda’n dogfennau llywodraethu ein hunain a bodloni gofynion Cod Llywodraethu priodol.

Gosod a chyflawni ymrwymiadau mesuradwy, sy’n seiliedig ar dystiolaeth ar draws holl feysydd ein busnes mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (gan gynnwys gwrth-hiliaeth a mynd i’r afael â throsedd casineb) gan adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn gweithio ynddynt a gyda nhw.

Bod â Bwrdd amrywiol, sy’n adlewyrchu’r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt a gyda nhw, a meddu ar y sgiliau a’r wybodaeth sydd eu hangen i fod yn effeithiol.

Gwneud penderfyniadau rhesymegol yn seiliedig ar wybodaeth glir o ansawdd da, sy’n cynnwys asesiad risg a, lle bo’n briodol, safbwyntiau’r tenantiaid.

Galluogi a chefnogi tenantiaid i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau strategol.

Cydymffurfio gyda’r holl ddeddfwriaeth berthnasol, gofynion rheoleiddiol a chanllawiau statudol a chyfathrebu gyda’r rheoleiddwyr yn amserol, gan gynnwys ar faterion sylweddol sy’n ymwneud â diffyg cydymffurfedd gwirioneddol neu botensial o ddiffyg cydymffurfedd.

# Sut rydym yn cydymffurfio

- Mae gennym ni Gynllun Busnes 'Arloesol' 5 mlynedd sy'n nodi ein 3 maes allweddol y canolbwyntir arnynt yn eglur. Diben Cymdeithasol Craidd, Cwsmeriaid yn Ganolbwynt a Darparu Gwerth. Mae Ein Gwerthoedd yn sail i'r Cynllun Busnes: Gwneud y Peth Iawn, Ymrwymo i Ansawdd a Bod yn Arloesol.

- Rydym ar hyn o bryd yn llunio Cynllun Busnes newydd (2025-2028) a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w gymeradwyo ym Mawrth 2025.

- Caiff materion llywodraethu eu hadrodd i bob cyfarfod Bwrdd. Yn fwy diweddar mae hyn wedi cynnwys adolygiad o Gylch Gorchwyl ein Bwrdd a'r holl Bwyllgorau ac ail ysgrifennu ein Cynllun Dirprwyo yn llawn.

- Rydym ar hyn o bryd yn gweithio tuag at yr Achrediad Ansawdd mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gyda Tai Pawb. Fel rhan o'r achrediad hwn mae ein harferion presennol wedi eu gwerthuso ac mae yna Gynllun Gweithredu mewn grym sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni ddarparu tystiolaeth o welliannau o feysydd ar draws y busnes. Mae'r gwaith hwn wedi ein helpu ni i sefydlu ymagwedd fwy cyson tuag at gefnogi, casglu a monitro data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sydd wedi helpu i siapio gwneud penderfyniadau.

- Mae holl aelodau'r Bwrdd wedi cwblhau arolwg yn seiliedig ar sgiliau i'n helpu ni i ddeall bylchau mewn gwybodaeth. Cafodd metrigau amrywiaeth eu cynnwys i sicrhau fod ein Bwrdd yn gynrychioliadol o'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Mae'r dadansoddiad hwn wedi ein helpu ni i fynd i'r afael â bylchau o ran sgiliau a gwella amrywiaeth.

- Fe gymeradwyodd ein Bwrdd Fodel Ymgysylltu â Thenantiaid newydd i helpu i ddiwygio cyfranogiad tenantiaid a chreu mwy o gyfleoedd ar gyfer cynnwys safbwyntiau nifer fwy o denantiaid wrth wella gwasanaethau.

# Cynllun Gwella Parhaus

- Fe fyddwn yn cyflwyno Cynllun Busnes newydd i'r Bwrdd ar gyfer ei gymeradwyo ym Mawrth 2025 er mwyn parhau i gydymffurfio gyda'r Safon hon.

- Byddwn yn parhau i weithio gyda Tai Pawb i sicrhau achrediad 'Ansawdd mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth' Tai Cymdeithasol Cymru er mwyn sicrhau fod Cartrefi Conwy yn ymwybodol o amrywiaeth yn y cymunedau mae'n gweithio ynddynt a gyda nhw.

- Byddwn yn cynnal mwy o ddigwyddiadau 'Sgyrsiau â Thenantiaid' sy'n canolbwyntio ar newidiadau strategol allweddol i gryfhau ein tystiolaeth o sut mae tenantiaid yn dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau strategol.

- Parhau i geisio gwella Amrywiaeth ar lefel bwrdd wrth gynllunio olyniaeth a recriwtio i lenwi swyddi gwag.


# Safon Reoleiddio 2

**Sicrhau bod trefniadau rheoli risg a sicrwydd cadarn mewn grym. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni wneud yr isod:**

Cael fframwaith effeithiol ar gyfer rheoli risg, rheolaethau mewnol a sicrwydd sy'n ein galluogi ni i nodi a rheoli yn llwyddiannus risgiau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n bygwth y broses o gyflawni ein strategaeth neu'n bygwth ein cydymffurfedd gyda gofynion deddfwriaethol neu reoleiddiol.

Peidio â rhoi asedau na thenantiaid tai cymdeithasol mewn risg diangen.

Cynnal cynlluniau parhad busnes, cynlluniau wrth gefn a chynlluniau adfer ar ôl trychineb hygyrch a chyfredol.



# Sut rydym yn cydymffurfio

- Yn ddiweddar rydym wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o Barodrwydd ein Bwrdd i Dderbyn Risg er mwyn sicrhau ei fod yn parhau yn gyfredol ac yn berthnasol yn yr hinsawdd sydd ohoni. Mae'r adolygiad hwn wedi bod yn hanfodol ar gyfer datblygiad ein Cynllun Busnes newydd ar gyfer 2025.
- Eleni rydym wedi adolygu a diweddaru ein Fframwaith Rheoli Risg cyfan yn drylwyr, gan ymgorffori sawl elfen newydd i wella ein hymagwedd tuag at reoli risg.
- Fe aethom ati i gomisiynu adolygiad allanol o'n trefniadau Llywodraethu a oedd yn cynnwys argymhellion i wella'r Llinell Welediad o fewn ein Strwythur Llywodraethu a'n hymagwedd tuag at Reoli Risg.
- Mae ein Bwrdd wedi derbyn Adolygiad Gweithredol o Ddiogelwch Tân a oedd yn dangos ein hymagwedd tuag at adeiladu diogelwch tân cymunedol ac 'yn y cartref' a rhoi'r cyfle i'n Bwrdd i siarad gyda'n Partneriaid yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Savills.
- Mae ein Harchwilwyr Mewnol wedi cwblhau adolygiadau manwl o'n prosesau cwynion, diogelwch tân adiogelu. Mae barn Mazars ar y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn sylweddol o ran ei ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol.
- Mae Cynlluniau Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb mewn grym ac wedi eu hadolygu a'u cadarnhau fel rhai cyfredol gan ein Partneriaid Allanol - Commercial Initiatives.
- Fe gafodd swyddogion Hyfforddiant o ran y Cyfryngau yn ymwneud ag Argyfwng ym Medi 2024. Caiff y wybodaeth ddiweddaraf ei darparu ym mhob cyfarfod i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Grŵp.

# Blaenoriaethau gwella

- Byddwn yn parhau i weithredu Camau Gweithredu Llinell Welediad sy'n cynnwys adran benodol ar risg i gryfhau ein hymagwedd tuag at reoli risg ymhellach.
- Byddwn yn cynnal sesiwn ar sefyllfaoedd o drychineb i helpu ein Bwrdd i ddeall Parhad Busnes ac effeithiolrwydd ein cynlluniau yn well.
- Byddwn yn darparu rhagor o Hyfforddiant Parhad Busnes a Sefyllfaoedd i gefnogi ystyriaeth o risg llifogydd a lleihau niwed.
- Byddwn yn darparu rhagor o hyfforddiant diogelu ar gyfer swyddi sy'n ymdrin â chwsmeriaid wyneb yn wyneb.

# Safon Reoleiddio 3

Mae gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu i denantiaid. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni wneud yr isod:

Cadw tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi a chanfod a chywiro unrhyw dan-berfformiad neu ddiffyg cydymffurfedd yn ymwneud â materion iechyd a diogelwch landlord ar unwaith.

Darparu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion amrywiol tenantiaid

Cyrraedd a chynnal lefelau uchel o foddhad tenantiaid gyda gwasanaethau

Sicrhau fod gwybodaeth ar berfformiad landlord ar gael i denantiaid

**87%**

*o denantiaid yn fodlon gyda pha mor hawdd yw hi i ymdrin â Chartrefi Conwy*

**87%**

*o foddhad tenant yn gyffredinol*

**92%**

*o denantiaid yn teimlo fod cydweithwyr yn gyfeillgar ac agos atoch chi*

*Ystadegau o Arolwg Boddhad Tenantiaid 2024 wedi ei seilio ar ymatebion gan 800 o denantiaid*

# Sut rydym yn cydymffurfio

- Mae ein Harchwilwyr Mewnol wedi cwblhau archwiliadau mewnol o'n harferion cydymffurfedd Diogelu, Diogelwch Tân ac Iechyd a Diogelwch Landlord. Fe aed i'r afael ar unwaith ag argymhellion a gododd o hyn.
- Mae gennym ni Dîm Iechyd a Diogelwch profiadol sy'n adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Grŵp ar faterion fel archwiliadau ystâd, digwyddiadau'n ymwneud â thân, data diogelwch tenantiaid a Chydymffurfedd Iechyd a Diogelwch Landlord a chamau a gymrwyd i fynd i'r afael â than-berfformiad.
- Mae gennym ni broses gwynion drylwyr sy'n anelu i fynd i'r afael â materion a godir gan ein deiliaid contract. Pan fo ymchwiliad rydym yn ymrwymedig i ddysgu o'n camgymeriadau a chywiro tan-berfformiad.
- Rydym wedi adolygu ein Model Ymgysylltu â Thenantiaid i sicrhau y gallwn gynnwys ystod mwy amrywiol o denantiaid i helpu i wella ein gwasanaethau.
- Mae ein Tîm Creu Dyfodol wedi symud eu ffocws o'r gweithgareddau traddodiadol o ran ymgysylltu â'r gymuned er mwyn helpu i gefnogi'r ddarpariaeth graidd. Bydd y newid hwn yn helpu i wella gwelededd yn ein cymunedau a thargedu ardaloedd sydd angen mwy o gefnogaeth yn nhermau atgyweirio, ôl-ddyledion ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol.
- We continue to develop our knowledge-based functionality on our website to assist our contract holders who have queries. Between June - December 2024, 313x visitors used Asked Cartrefi – 45% of these were out of working hours.
- Rydym yn defnyddio Acuity i holi 800x o'n deiliaid contract mewn arolwg yn flynyddol. Mae meincnodi o ran y sector yn dangos ein bod yn Chwarter 1 / Chwarter 2 ar gyfer mwyafrif helaeth y metrig boddhad.

# Improvement priorities

- Byddwn yn adrodd yn fwy rheolaidd ac yn cyflwyno data i ddarparu sicrwydd i'n Bwrdd/Pwyllgor Gwasanaethau Tenantiaid o ran cyrhaeddiad ac effeithiolrwydd ein cylchlythyr i denantiaid.
- Byddwn yn adolygu ein Polisi Cymhorthion ac Addasiadau i adlewyrchu heriau o fewn y Gofrestr Dai ac o ran digartrefedd dyrannu gosod yn uniongyrchol.

# Safon Reoleiddio 4

**Caiff tenantiaid eu grymuso a'u cefnogi i ddylanwadu ar ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni:**

Greu diwylliant sy'n gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo cyfranogiad tenantiaid.

Galluogi tenantiaid i ddeall ein hymagwedd tuag at gyfranogiad tenantiaid, sut y gallant gymryd rhan a sut y byddwn yn gwrando ar adborth tenantiaid ac yn gweithredu ar hynny a dysgu o gwynion.

Darparu cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan, dangos fod tenantiaid yn fodlon gyda ni ac yn gallu dangos y gwahaniaeth y mae eu cyfranogiad yn ei wneud.

Dangos safbwyntiau amrywiol tenantiaid a disgwyliadau i lywio datblygiad a'r adolygiad o'n gwasanaethau tai a gwasanaethau cysylltiedig a'r ymateb i unrhyw dan-berfformiad.

**59%**

*o denantiaid yn teimlo fel pe baent yn dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau*

**70%**

*o denantiaid yn teimlo fel pe bai Cartrefi Conwy yn gwrando ar eu barn, ac yn gweithredu ar hynny*

**61%**

*o denantiaid yn teimlo fel pe bai ganddynt ddweud o ran sut y caiff gwasanaethau eu rheoli*

*Ystadegau o Arolwg Boddhad Tenantiaid 2024 wedi ei seilio ar ymatebion gan 800 o denantiaid*

# Sut rydym yn cydymffurfio

- Rydym wedi adolygu ein Model Ymgysylltu â Thenantiaid i sicrhau y gallwn gynnwys ystod mwy amrywiol o denantiaid i helpu i wella ein gwasanaethau. Mae ein hymagwedd newydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i denantiaid gymryd rhan ar adeg/trwy ddull sydd fwyaf addas i'w hamgylchiadau.

- Cynhaliwyd ein digwyddiad Sgwrs Tenantiaid cyntaf ddydd Iau 8 Hydref, pan ddaeth tenantiaid o wahanol oedrannau ar draws y Sir i'n helpu ni i lunio ein Cynllun Busnes newydd gan ddylanwadu ar ystod o flaenoriaethau allweddol eraill ar ein cyfer ni.

- Mae ein Newyddlen i Denantiaid yn annog ein tenantiaid i ymwneud â ni – yn arbennig gyda'n Grŵp Cartrefi yn Cysylltu, y digwyddiadau Sgwrs Tenantiaid a gweithgareddau / ymgynghoriadau Ymgysylltu â'r Gymuned.

- Mae grwpiau caeedig Cartrefi yn Cysylltu ar Facebook yn hwyluso amlygu pryderon tenantiaid yn ogystal â galluogi adborth ar bynciau sy'n berthnasol i denantiaid. Mae'r grŵp wedi parhau i ddarparu adborth uniongyrchol ar ymgynghoriadau ac yn cefnogi'r sefydliad drwy ddarparu adborth ar faterion allweddol fel eu safbwyntiau ar y ffordd orau o sicrhau ymgysylltiad tenantiaid.

- Fe gymrodd ein tenantiaid ran mewn adolygu ein Cronfa Cist Gymunedol. Gofynnodd y Panel am fwy o adborth gan denantiaid ar y gwerth grant uchaf posibl a'r gofyniad o 10% o arian cyfatebol sydd mewn grym ar hyn o bryd, ac felly fe wnaeth ein tenantiaid gyflwyniad yn y digwyddiad Sgwrs Tenantiaid.

- Rydym wedi ail lansio ein sesiynau Mynd am Dro ar Ddydd Mercher. Caiff y digwyddiadau hyn eu hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol a chaiff negeseuon testun eu hanfon i'r holl denantiaid sy'n byw o fewn yr ardal yn eu hannog i ddod i siarad gyda ni.Mae Aelodau'r Bwrdd yn mynychu'r digwyddiadau hyn yn rheolaidd.

- Mae ein Llais Tenantiaid a Dylanwadu ar yr Adroddiad Blynyddol yn dangos sut ddylanwadodd ein tenantiaid ar ystod o brosiectau gan gynnwys Ymgynghoriad Cymuned Peulwys (i ystyried pam fod boddhad yma yn is na'r cyfartaledd), Prosiect Amgylcheddol Lôn Cymru (cynigion ar gyfer gwelliannau), Gosod Rhent, Strategaeth Cynaliadwyedd a'n Hymagwedd newydd tuag at Gymdogaethau.

## Blaenoriaethau gwella

- Byddwn yn cyflwyno argymhellion ein tenantiaid yn ymwneud â newidiadau i'r Gronfa Cist Gymunedol i Bwyllgor Gwasanaethau'r Tenantiaid.

- Byddwn yn gwella'r broses o adrodd i denantiaid ar y canlyniadau a gyflawnwyd o ganlyniad i ddigwyddiadau Mynd am Dro ar Ddydd Mercher. Byddwn hefyd yn adolygu hygyrchedd i'r digwyddiadau hyn i annog mwy o gyfranogiad.

- Byddwn yn adolygu fformat a chynnwys newyddlen ein tenantiaid i sicrhau fod y cynnwys yn ystyrlon ar gyfer ein tenantiaid a bod yn fwy eglur am gyfleoedd iddynt i gymryd rhan.

# Safon Reoleiddio 5

**Bod rhenti a ffioedd gwasanaeth yn fforddiadwy ar gyfer tenantiaid presennol a'r rhai yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni:**

Sicrhau y cydymffurfir gyda'r holl reolau perthnasol a chanllawiau statudol (gan gynnwys y cytundeb rhent presennol)

## Sut rydym yn cydymffurfio

- Mae ein Bwrdd yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf drwy'r 'Sbotolau ar Fforddiadwyedd Tenant', sy'n dangos ein hymagwedd tuag at y cynnydd mewn rhent a'r mecanweithiau sydd ar gael i helpu'r rhai hynny sy'n ei chael yn anodd.
- Mae ein Hadroddiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn rhoi manylion am fforddiadwyedd ein rhenti o dan Thema 4.



# Safon Reoleiddio 6

**Mae gan y sefydliad ymagwedd strategol tuag at werth am arian sy'n llywio ei holl gynlluniau a'i weithgareddau. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni:**

Benderfynu ein hymagwedd strategol tuag at werth am arian, gan sicrhau fod ein hymagwedd yn ymwneud â'i ddiben cymdeithasol a gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol yn unol â hynny.

Dangos i fudd-ddeiliaid, gan gynnwys tenantiaid, ein bod yn cael gwerth am arian wrth gyflawni ein strategaeth a'n gwasanaethau.

## Sut rydym yn cydymffurfio

- Mae sicrhau'r gwerth mwyaf yn ganolog i gyflawni ein gweledigaeth o 'Greu Cymunedau i fod yn Falch Ohonynt'. Mae ein Strategaeth Darparu Gwerth wedi ei diweddaru eleni i sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol.
- Fe gawsom adroddiad gan Savills a adolygodd y cyfraddau presennol a godir ar Cartrefi Conwy gan Greu Menter i sicrhau eu bod yn fforddiadwy ac o fewn ffiniau'r sector.
- Mae ymagwedd Gwerth am Arian yn sail i'n prosesau caffael a rhoddir ystyriaeth i'r budd cymunedol a'r gwerth cymdeithasol all gael ei gyflawni o fewn pob contract. Rydym ni'n gofyn am i 1% o werth y contract gael ei ddefnyddio i ariannu ein Strategaeth Effaith Gymdeithasol, oni bai bod budd mwy priodol yn gysylltiedig ag arbenigedd y cyflenwr.
- Mae ein hadroddiad ACLl ar gael ar ein gwefan ac mae'n rhoi manylion ynglŷn â'r gwaith a wneir o ran Rheoli'r Gadwyn Gyflenwi (Thema 12). Cafwyd £7,327 mewn cyfraniadau gan gyflenwyr allweddol a'n contractwyr yn 2023/2024.
- Mae ein Hadroddiad Gweithgareddau Blynyddol ar gael ar ein gwefan. Mae tudalen 35 o'r adroddiad hwn yn dangos o lle y daw ein harian a lle caiff ei wario, ond mae'r adroddiad cyfan yn dangos sut rydym yn cael gwerth am arian.

## Blaenoriaethau gwella

- Byddwn yn llunio Strategaeth Gaffael gynaliadwy newydd i ffurfioli ein hymagwedd tuag at fudd cymunedol a gwerth cymdeithasol unwaith y bydd deddfwriaeth newydd mewn grym.

# Safon Reoleiddio 6 (parhad)

**86%**

*o'n tenantiaid yn credu bod eu rhent yn darparu gwerth am arian*

**78%**

*o'n tenantiaid yn credu bod eu taliadau gwasanaeth yn darparu gwerth am arian*

*yn seiliedig ar ein harolwg boddhad Tenantiaid gydag ymatebion gan 800 o denantiaid*



# Safon Reoleiddio 7

Bod cynllunio a rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn effeithiol Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni wneud yr isod:

Gosod cynlluniau ariannol sy'n ein galluogi ni i gyflawni ein strategaeth a chyflawni ein diben cymdeithasol, a sicrhau yr adroddir yn briodol i'r Bwrdd yn erbyn y cynlluniau hyn.

Bod yn hyfyw yn ariannol yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor a chynnal cyllid digonol a hylifedd i gefnogi hyn.

Monitro ac adrodd ar yr holl cyfamodau rydym wedi cytuno arnynt gyda chyllidwyr a chydymffurfio â'r rhain.

Nodi a rheoli risgiau o ran cyflawni cynlluniau ariannol yn effeithiol gan gynnwys profi straen yn briodol, cynllunio sefyllfaoedd a defnyddio trothwyon mewnol.

Bod â strategaeth rheoli trysorlys effeithiol a phrosesau cysylltiedig.

# Sut rydym yn cydymffurfio

- Caiff ein Dangosfyrddau Perfformiad Strategol eu hadrodd i'n Bwrdd yn chwarterol ac adroddir yn fanwl ar Berfformiad yn erbyn ein Cynllun Busnes Ariannol.
- Profir ein Cynllun Busnes Ariannol yn rheolaidd o ran straen i'n helpu ni i ddeall effaith y gwahanol sefyllfaoedd a'n galluogi ni i roi strategaethau mewn grym i liniaru yn erbyn y sefyllfaoedd hyn.
- Adroddir ar ein Cyfrifon Rheoli i'r bwrdd yn chwarterol. Eglurwyd amrywiaethau ac amlinellwyd camau i gywiro.
- Mae ein Hadroddiadau Gweithgareddau Datblygu yn darparu dadansoddiad ariannol o brosiectau parhaus a rhai sydd wedi eu cynllunio, gan gynnwys amcangyfrif o'r costau, amserlenni a ffynonellau cyllido yn ogystal â risgiau ac argyfyngau posibl.
- Mae ein Hadroddiadau Profi Straen yn dangos lle mae profi sefyllfa wedi nodi posibilrwydd o dorri cyfamod a chynlluniau wrth gefn i gynnal cydymffurfedd.
- Eleni fe aildrafodwyd Cyfamodau'n llwyddiannus gyda 3 benthyciwr i gefnogi ein buddsoddiad mewn mesurau datgarboneiddio.
- Mae ein Polisi Rheoli Trysorlys yn helpu i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig gyda benthyca, buddsoddiadau, llif arian, bancio a thrafodion arian/marchnad gyfalaf. Mae'n nodi yn eglur ac yn diffinio rheolaethau allweddol a throthwyon sy'n anelu i reoli risgiau.

# Blaenoriaethau gwella

- Gan mai dim ond yn ddiweddar rydym wedi dechrau adrodd i'r Bwrdd ar ein Cyfrifon Rheoli yn chwarterol, fe fyddwn yn adlewyrchu ar y strwythur adrodd ym Mehefin 2025 i ystyried a yw'n darparu'r sicrwydd gofynnol i aelodau'r Bwrdd neu os oes angen unrhyw newidiadau.

# Safon Reoleiddio 8

**Bod asedau a rhwymedigaethau'n cael eu rheoli'n dda. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni:**

Fod â dealltwriaeth gywir a chyfredol o'n hasedau a'n rhwymedigaethau

Sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o'n hasedau i gyflawni ein diben cymdeithasol ac amcanion y sefydliad.

Defnyddio gwybodaeth gywir yn ymwneud ag asedau a rhwymedigaethau i lywio penderfyniadau strategol ac ariannol.

## Sut rydym yn cydymffurfio

- Mae ein Strategaeth Rheoli Asedau 2023-2028, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym Mai 2023, yn nodi ein hymagwedd tuag at reoli ein hasedau gan gynnwys tai cymdeithasol ar rent, tai ar brydles yn ogystal â garejys ac eiddo masnachol.

- Mae ein Dangosfyrddau Perfformiad Strategol yn darparu data ar incwm rhentu yn erbyn ôl-ddyledion a'r camau a gaiff eu cymryd i reoli ôl-ddyledion, colli rhent o ganlyniad i dai gwag, amser ail-osod, cynnal a chadw, cydymffurfedd, atgyweiriadau ymatebol, atgyweiriadau mawr a chost hawliadau diffyg atgyweirio. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Tenantiaid hefyd wedi cael golwg manwl ar ôl-ddyledion.

- Mae gennym ni Gofrestr Asedau a Rhwymedigaethau mewn grym sy'n gweithredu fel modd o gyfeirio defnyddwyr er mwyn nodi lle gellir dod o hyd i wybodaeth berthnasol. Mae'n cael ei hadolygu a'i diweddaru ar hyn o bryd fel rhan o'n prosesau arferol cyn trafodaeth y Bwrdd ym Mawrth 2025.

- Rydym wedi ymgymryd ag ymarfer ail flaenoriaethu i ystyried yr holl gynlluniau o fewn y llif arian ac i liniaru'r risg o beidio â tharo amcanestyniadau'r Cynllun Busnes ac i sicrhau ein bod yn gallu bodloni'r galw.

- Yn Niwrnod Strategaeth y Bwrdd ym Mehefin 2024, fe ymunodd Savills â ni i ystyried ein hymagwedd strategol i stoc yn tan berfformio a'r Model Prisio Perfformiad Asedau. Canolbwyntiodd y sesiwn hefyd ar ein hymagwedd gyfredol tuag at waredu a'n hymagwedd yn y dyfodol.

- Mae cynigion yn yr Adroddiadau Gweithgaredd Datblygu yn cynnwys Arfarniadau Datblygu sy'n dangos y gellir datblygu cynlluniau o fewn meini prawf buddsoddiad Cartrefi Conwy. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu manylion yn ymwneud â'r galw yn yr ardal, i sicrhau fod penderfyniadau strategol yn cyd-fynd â gofynion y farchnad dai leol a phreswylwyr presennol/y dyfodol.

## Blaenoriaethau gwella

- Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad o'n Cofrestr Asedau a'n Rhwymedigaethau ac yn ei gyflwyno i'r Bwrdd ei ystyried ym Mawrth 2025.

# Safon Reoleiddio 9

**Mae'r sefydliad yn darparu llety o ansawdd uchel. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni:**

Sicrhau fod tai a ariennir yn gyhoeddus yn bodloni'r holl safonau perthnasol, rheolau a chanllawiau statudol a gyhoeddwyd mewn cysylltiad ag ansawdd llety, gan gynnwys Safon Ansawdd Tai Cymru.

## Sut rydym yn cydymffurfio

- Mae ein Hadroddiad Monitro Blynyddol ar Safon Ansawdd Tai Cymru yn rhoi manylion am y cynnydd rydym wedi ei wneud yn erbyn ein Cynllun Busnes a'r rhaglen waith a gynlluniwyd.
- Mae Savills yn cynnal ein holl Asesiadau Risg Tân yn unol â Deddf Diogelwch Tân 2021. Mae Savills yn archwilio ein holl adeiladau ac yn eu hasesu o ran risg i ddarparu lefel risg sy'n cyd-fynd ag amlder archwilio.
- Rydym wedi sefydlu Onnen sy'n Fenter Ynni Gwyrdd ar y Cyd â Thai ClwydAlyn i'n helpu ni i gyflawni amcanion datgarboneiddio a osodwyd gan Lywodraeth Cymru (WHQS2023).
- Mae ein Harchwilwyr Mewnol wedi cwblhau ystod o Archwiliadau Mewnol sydd wedi cadarnhau ein bod yn bodloni safonau perthnasol, rheolau a chanllawiau mewn cysylltiad ag ansawdd ein llety.
- Thema 5: Mae Diogelwch Adeiladau ac Ansawdd yn ein Hadroddiad ACLl yn nodi ein bod yn falch o fod wedi cynnal Cydymffurfedd Diogelwch 100%.
- Mae contractau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth mewn grym yn ymwneud ag atgyweirio a chynnal a chadw ein heiddo. Mae'r cytundebau hyn yn gosod y gofynion o ran gwaith a'r safonau sydd angen eu bodloni.

**81%**

*o'n tenantiaid yn fodlon ag ansawdd ein cartref*

*yn seiliedig ar ein harolwg boddhad Tenantiaid gydag ymatebion gan 800 o denantiaid*

# Dyfarniad Rheoleiddio - Hydref 2022

| Gwasanaethau Llywodraethu a | | |
|---|---|---|
| Yn cydymffurfio | Gwyrdd | Mae'r Gymdeithas yn bodloni'r safonau rheoleiddio a |

| Hyfywedd Ariannol | | |
|---|---|---|
| Yn cydymffurfio | Gwyrdd | Mae'r Gymdeithas yn bodloni'r safonau rheoleiddio a bydd yn derbyn goruchwyliaeth reoleiddiol arferol. |